**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Rhif 2) (Cymru) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Rhif 2) (Cymru) 2022. Rwy’n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Julie Morgan AS**

**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

**15 Tachwedd 2022**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Rhif 2) (Cymru) 2022 yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022, a oedd yn dirymu, yn diweddaru, ac yn addasu Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010”).

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r categorïau o bobl sydd wedi'u hanghymhwyso rhag cofrestru yng Nghymru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur”). Ni chaiff pobl sydd wedi’u hanghymhwyso o dan y Rheoliadau hyn weithredu fel gwarchodwyr plant yng Nghymru, na darparu gofal dydd na bod yn rhan o'r gwaith o reoli unrhyw ddarpariaeth gofal dydd. Ni ddylid eu cyflogi mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau gwarchod plant na gofal dydd ychwaith.

Un o brif ddibenion y Rheoliadau hyn yw diweddaru cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth bresennol ac ymgorffori troseddau a gafodd eu cynnwys yn y rheoliadau cyfatebol sy'n berthnasol yn Lloegr pan gawsant eu diweddaru yn 2018[1]. Gwneir hyn ar y sail ei bod yn cael ei hystyried yn briodol i unrhyw un sy’n cael rhybuddiad neu euogfarn am y troseddau hyn gael ei anghymhwyso rhag gweithio ym maes gofal plant rheoleiddiedig yng Nghymru, yn ogystal ag yn Lloegr. Mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau newydd yn cynnwys troseddau ychwanegol yn ogystal â’r rhai sydd i’w gweld ar hyn o bryd yn y rheoliadau cyfatebol sy'n gymwys yn Lloegr. Mae'r rhain yn droseddau newydd sy'n gysylltiedig â voyeuriaeth o dan adrannau 67A o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, ac sy’n ei gwneud yn drosedd defnyddio trais, bygythiadau neu unrhyw fath o orfodaeth i orfodi person arall i briodi o dan adran 121 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dileu darpariaethau sy'n anghymhwyso pobl rhag cael eu cofrestru i ddarparu gofal dydd yn seiliedig ar y ffaith eu bod yn byw gyda rhywun sydd wedi'i anghymhwyso neu fod rhywun sy'n gweithio yn eu cartref wedi'i anghymhwyso, a hefyd yn dileu rhai elfennau anghyson yn y rheoliadau presennol i sicrhau nad yw pobl a fu’n destun Gorchmynion Gofal neu Oruchwylio eu hunain yn y gorffennol yn cael eu hanghymhwyso’n awtomatig rhag cofrestru. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Rheoliadau hyn yn golygu nad yw gofalwyr maeth (gan gynnwys gofalwyr maeth sy'n berthnasau) a'r rhai sydd wedi mabwysiadu plant yn cael eu hanghymhwyso’n awtomatig rhag cofrestru os ydynt wedi gofalu / yn gofalu am blentyn sy'n destun gorchmynion gofal neu oruchwylio am resymau na ellir eu priodoli i'w gofal am y plentyn. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dileu anghymhwyso unigolion yn awtomatig a oedd eu

[1] Rheoliadau Gofal Plant (Anghymwyso) a Gofal Plant (Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn rhad ac am ddim) (Ymestyn Hawliau) (Diwygio) 2018

hunain yn destun gorchmynion gofal neu oruchwylio (oni bai bod gorchymyn o'r fath hefyd wedi'i wneud o ganlyniad i'w gofal nhw am blentyn eu hunain).

Bydd yr unigolion hyn bellach yn gallu cofrestru i ddarparu gwasanaethau gofal plant heb orfod sicrhau hepgoriad o anghymhwysiad os ydynt yn gallu bodloni'r holl feini prawf angenrheidiol eraill.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022, ac yn rhoi sylw i'r pwyntiau technegol a godwyd wrth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad graffu ar y rheoliadau hynny.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Gwnaed Rheoliadau 2010 o dan bwerau a gynhwysir yn adrannau 79C (2) a (3), 79M(1)(c) a 104(4) a pharagraff 4 o Atodlen 9A i Ddeddf Plant 1989. Cafodd y pwerau hyn wedyn eu diddymu gan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, er bod Rheoliadau 2010 yn parhau mewn grym oherwydd darpariaeth arbed.

Mae Rheoliadau 2022 Rhif 2 yn cael eu gwneud o dan yr un pwerau â'r rheoliadau y maent yn eu disodli, sef adrannau 30(1), (3) a (4), 37(2)(a), 38(2), (3), (4) a (5) a 74(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022, a oedd eu hunain yn dirymu, yn diweddaru, ac yn addasu Rheoliadau 2010. Maen nhw'n cynnwys yr un nodweddion â'r rheoliadau y maent yn eu disodli:

- diweddaru cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth bresennol i adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bresennol yn y Deyrnas Unedig (DU) a'r tiriogaethau sy'n ddibynnol ar y Goron sef Ynys Manaw, Jersey a Guernsey, yn enwedig pan fo'r rhain yn ymwneud â throseddau sy'n gallu anghymhwyso unigolyn rhag darparu gwasanaethau gofal dydd a gwarchod plant.

- troseddau newydd yr ystyrir eu bod yn briodol i unrhyw un sydd wedi cael rhybuddiad neu euogfarn am y troseddau hyn gael ei anghymhwyso rhag gweithio ym maes gofal plant rheoleiddiedig yng Nghymru.

- dileu darpariaethau sy'n anghymwyso pobl rhag darparu gofal dydd ar sail eu cysylltiad â rhywun sy'n byw neu'n gweithio yn eu cartref.

- cael gwared ar elfennau anghyson yn y ddeddfwriaeth bresennol i sicrhau bod pobl a allai fod wedi bod yn destun Gorchmynion Gofal neu

Oruchwylio yn y gorffennol – ynghyd â rhieni maeth, perthnasau neu rieni sydd wedi mabwysiadu plant - yn cael eu trin yn deg ac nad ydynt yn cael eu hanghymhwyso’n awtomatig rhag cofrestru.

Cafodd Rheoliadau 2010 eu gwneud o dan bwerau galluogi a nodwyd yn Neddf Plant 1989 sydd wedi cael eu diddymu gan y Mesur. Er bod Rheoliadau 2010 yn parhau mewn grym oherwydd darpariaeth arbed, roedd y bwriad deddfwriaethol yn glir y dylai Rheoliadau 2010 gael eu disodli gan reoliadau a wneir o dan bwerau galluogi yn y Mesur, ac sy'n ymwneud â darparwyr cofrestredig o dan Ran 2 o'r Mesur.

Mae'r Rheoliadau newydd yn ceisio sicrhau bod mwy o degwch mewn perthynas â’r rheini sydd eisoes wedi'u hanghymhwyso rhag cofrestru heb unrhyw fai arnynt eu hunain. Mae’r Rheoliadau newydd hefyd yn ceisio adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r troseddau presennol. Mae'r Rheoliadau a'r Atodlenni wedi'u diweddaru'n gyffredinol i gynnwys deddfwriaeth a throseddau cyfredol (mae hyn yn cynnwys adlewyrchu'r ffaith bod y diffiniad o "drosedd yn erbyn plentyn" wedi cael ei ddisodli gan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006).

Gan fod y Rheoliadau'n hanfodol i sicrhau bod plant mewn lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig yn cael eu diogelu, caiff hynny effaith gadarnhaol ar blant, y gweithlu, rhieni a gofalwyr.

Er bod y niferoedd dan sylw yn debygol o fod yn fach iawn, bydd y newidiadau polisi arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y bobl hynny sydd wedi'u hanghymhwyso rhag cofrestru fel darparwyr gofal plant neu ddarparwyr gofal dydd neu rhag cael eu cyflogi i weithio mewn lleoliadau gofal plant oherwydd anghymhwysiad ar sail cysylltiad, neu oherwydd y ffordd y mae Rheoliadau 2010 wedi'u drafftio o ran gorchmynion gofal a goruchwylio. O ganlyniad, bydd gan rai unigolion y dewis o weithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae rheoleiddiedig, ac efallai na fyddai hynny wedi bod ar gael iddynt yn flaenorol. Bydd hyn yn helpu i gynyddu eu rhagolygon a'u cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol. Bydd y newidiadau arfaethedig hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd busnesau gofal plant i'r graddau y maent yn galluogi cyflogi pobl a fyddai fel arall wedi'u hystyried gan Reoliadau 2010 yn anaddas i weithio ym maes gofal plant.

## 5. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**Mae'r asesiad hwn yn ymwneud ag asesu costau a manteision opsiynau mewn perthynas â newidiadau polisi arfaethedig rhwng Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010") a Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Rhif 2) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau 2022”).**

## Cefndir

Mae Rheoliadau 2010, a ddaeth i rym ar 30 Gorffennaf 2010, yn nodi'r categorïau o bobl sydd wedi'u hanghymhwyso rhag cofrestru yng Nghymru fel gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd o dan Ran XA o Ddeddf Plant 1989. Ni chaiff y bobl anghymwys hyn weithredu fel gwarchodwyr plant, darparu gofal dydd nac ymwneud â'r gwaith o reoli unrhyw ddarpariaeth gofal dydd, na bod ag unrhyw fuddiant ariannol ynddi. Ni cheir eu cyflogi ychwaith mewn cysylltiad â darpariaethau gofal dydd neu warchod plant.

## Crynodeb o'r prif newidiadau rhwng Rheoliadau 2010 a Rheoliadau 2022

### Newidiadau technegol ac ategol

Un o brif nodau Rheoliadau 2022 yw diweddaru'r ddeddfwriaeth fel ei bod yn gydnaws â'r gyfraith bresennol ac ail-greu Rheoliadau 2010 o dan bwerau galluogi sydd wedi'u diweddaru. Yn unol â hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar y cyfle i ddileu rhannau o Reoliadau 2010 nad oes eu hangen bellach, ac i ddiwygio rhannau eraill lle barnwyd bod newidiadau'n briodol yn y cyd-destun deddfwriaethol presennol.

Mae Rheoliadau 2022 yn cynnwys diweddariadau technegol lle mae cyfeiriadau at orchmynion a phenderfyniadau sy'n ymwneud â gofalu am blant (Atodlen 1), y rhestr o droseddau a ddiddymwyd (Atodlen 2) a throseddau penodedig (Atodlen 3) wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bresennol yn y DU a'r tiriogaethau sy'n ddibynnol ar y Goron sef Ynys Manaw, Jersey a Guernsey. Wrth gynnwys troseddau cydnabyddedig yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r tiriogaethau sy'n ddibynnol ar y Goron, y nod yw sicrhau, os canfyddir bod unigolyn wedi cyflawni trosedd debyg mewn rhan arall o'r DU neu yn un o'r tiriogaethau sy'n ddibynnol ar y Goron, eu bod yn cael eu hanghymhwyso rhag cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd yng Nghymru. Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2022 hefyd yn darparu ar gyfer anghymhwyso rhag cael cofrestru mewn perthynas â throseddau a gyflawnwyd dramor sy'n debyg i'r troseddau a nodir yn Rheoliadau 2022.

Mae Atodlen 3 i Reoliadau 2022 yn cynnwys troseddau sy'n anghymhwyso rhywun sy'n ychwanegol at y rhai yn Rheoliadau 2010. Mae'r troseddau penodedig newydd hyn wedi'u seilio i raddau helaeth ar y Rheoliadau cyfatebol yn Lloegr a ddiweddarwyd yn 2018 drwy Reoliadau Gofal Plant (Anghymhwyso) a Gofal Plant (Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn Rhad ac am Ddim) (Ymestyn Hawliau) (Diwygio) 2018 ("Rheoliadau Lloegr 2018"). Mae'r troseddau ychwanegol hyn yn adlewyrchu troseddau newydd sydd wedi'u cyflwyno ers i Reoliadau 2010 ddod i rym, ac ystyrir eu bod yn rhywiol a threisgar eu natur a/neu'n achosi niwed i blant, neu'n ymwneud â phlant. Maent yn cynnwys, er

enghraifft, troseddau sy'n ymwneud â therfysgaeth, defnydd amhriodol o gyfathrebu electronig cyhoeddus, datgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol preifat, masnachu pobl/camfanteisio ar bobl, a helpu i gyflenwi sylweddau seicoweithredol.

Mae Atodlen 3 i Reoliadau 2022 yn cynnwys troseddau ychwanegol yn ogystal â’r rhai sydd i’w gweld ar hyn o bryd yn Rheoliadau Lloegr 2018. Mae'r rhain yn droseddau newydd sy'n gysylltiedig â voyeuriaeth o dan adrannau 67A o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, ac sy’n ei gwneud yn drosedd defnyddio trais, bygythiadau neu unrhyw fath o orfodaeth i orfodi person arall i briodi o dan adran 121 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

O ystyried natur rywiol y troseddau sy’n gysylltiedig â voyeuriaeth, ystyrir bod cyfiawnhad dros ychwanegu'r troseddau hyn at Atodlen 3 i Reoliadau 2022.

O ystyried y potensial i droseddau sy'n ymwneud â gorfodi rhywun i briodi gynnwys trais, bygythiadau o drais a gorfodaeth er mwyn pwyso ar/gorfodi unigolyn arall i'r hyn sydd, i bob pwrpas, yn drefniant cyfreithiol rwymol, ystyrir ei bod yn rhesymol cynnwys y drosedd hon hefyd ar y rhestr o droseddau sy’n anghymwyso.

Fel yn achos Rheoliadau 2010, mae’r Rheoliadau hyn (yn Rheoliad 9) yn cynnwys darpariaeth sy’n golygu y gall y rhai sy'n teimlo eu bod wedi'u hanghymhwyso rhag cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd heb gyfiawnhad, os ydynt yn gymwys, ofyn am i’w hanghymhwysiad gael ei wrthdroi gan Weinidogion Cymru. Fel yn achos Rheoliadau 2010, mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn cynnwys yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ynghylch penderfyniad gan Weinidogion Cymru i wrthod gwrthdroi anghymhwysiad o dan y Rheoliadau (yn Rheoliad 10).

Ystyrir mai effaith fach iawn y bydd ychwanegu’r troseddau ychwanegol hyn yn ei chael o ystyried y niferoedd cymharol isel o unigolion sy'n debygol o fod wedi cael euogfarn neu rybuddiad am y troseddau penodedig a fyddai hefyd yn bwriadu cael eu cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd yng Nghymru.

At hynny, rhaid cynnal gwiriad datgelu manylach ar unigolion sydd am gofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd yng Nghymru, gan wirio'r rhestrau gwahardd, sy'n dangos yr un peth â gwiriad manylach ynghyd ag a yw'r ymgeisydd ar y rhestr sy’n ei wahardd rhag gweithio gydag oedolion, y rhestr sy’n ei wahardd rhag gweithio gyda phlant, neu'r ddau. Caiff y gwiriadau hyn eu

prosesu gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)[2] [3] ac maent yn rhan o'r broses gofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd sy'n cael ei rheoli gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar ran Gweinidogion Cymru. Maent yn darparu gwybodaeth am hanes troseddol unigolyn ar adeg benodol, a gallant gynnwys gwybodaeth am eu haddasrwydd i weithio gyda phlant. Bydd y rhan fwyaf o'r troseddau a gynhwysir yn Rheoliadau 2022 yn cael eu codi'n awtomatig, felly, fel rhan o'r gwiriad datgelu manylach, ac effaith fach iawn y bydd y Rheoliadau ynddynt eu hunain yn ei chael.

**Newidiadau polisi allweddol**

O ran y **newidiadau polisi allweddol** sy'n cael eu cynnig, nodir yr opsiynau ynghyd â'r costau a'r manteision isod.

**Anghymhwyso ar sail cysylltiad**

O dan Reoliadau 2010, mae darpariaeth anghymhwyso ar sail cysylltiad yn golygu y gall unigolyn gael ei anghymhwyso rhag gweithio ym maes gofal plant oherwydd trosedd a gyflawnwyd gan rywun sy'n byw neu'n gweithio yn ei gartref.

O dan Reoliadau 2010, gellir anghymhwyso gwarchodwr plant cofrestredig, a darparwr gofal dydd cofrestredig, rhag cofrestru neu weithio ym maes gofal plant yng Nghymru **ar sail ei gysylltiad â rhywun sy'n byw neu'n gweithio yn ei gartref sydd wedi cyflawni trosedd neu a wnaed yn destun gorchmynion neu benderfyniadau sy'n dod o fewn cwmpas Rheoliadau 2010.**

Rydym yn cynnig dileu'r darpariaethau anghymhwyso ar sail cysylltiad yn y Rheoliadau hyn mewn perthynas ag unigolion cofrestredig sy’n gweithio ar safleoedd annomestig. Byddai hyn yn berthnasol i ddarparwyr gofal dydd - er y gallant fod yn byw gyda rhywun sydd wedi'i anghymhwyso o dan Reoliadau 2022 neu'n byw mewn cartref lle mae person o'r fath yn gweithio. Mae'r newidiadau arfaethedig hefyd yn golygu y byddai hyn yn berthnasol i warchodwyr plant cofrestredig sy'n gweithio i ffwrdd o'u cartref (er bod hyn yn llai tebygol o ddigwydd yn ymarferol gan fod y rhan fwyaf o warchodwyr plant wedi'u cofrestru i weithio o'u cartref eu hunain).

Mae’r opsiynau a’r effeithiau canlynol wedi'u hystyried:

---

[2] Rhestr o droseddau na fyddant byth yn cael eu hidlo o dystysgrif DBS - GOV.UK (www.gov.uk)

[3] Pan fo person wedi byw dramor, mae AGC yn gofyn am wiriad DBS cyfatebol

**Opsiwn 1**

Gwneud dim a pharhau â'r darpariaethau anghymhwyso presennol mewn perthynas â gweithwyr mewn lleoliadau domestig ac annomestig.

Mae'r opsiwn hwn yn cadw'r polisi fel y mae, gan anghymhwyso unigolion cofrestredig sy'n gweithio ar safleoedd domestig ac annomestig yn yr un modd â'i gilydd. Yn Rheoliadau Lloegr 2018, dilewyd yr anghymhwysiad ar sail cysylltiad mewn perthynas â staff sy'n gweithio ym maes gofal dydd ac ysgolion ond gan gadw'r ddarpariaeth ar gyfer unigolion sy'n darparu ac yn gweithio ym maes gofal plant ar safleoedd domestig (h.y. gwarchodwyr plant).

Pe bai Cymru'n cadw'r sefyllfa fel y mae, byddai ein polisi mewn perthynas ag unigolion cofrestredig sy'n gweithio ar safleoedd annomestig yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr, a byddai'n cynnal y safbwynt ei bod yr un mor amhriodol i unigolion cofrestredig ymwneud â gofal plant ar safleoedd domestig ac annomestig ar sail eu cysylltiad â rhywun sy'n byw neu'n gweithio yn eu cartref sydd wedi cyflawni trosedd neu a wnaed yn destun gorchmynion/penderfyniadau sy'n dod o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth anghymhwyso.

**Opsiwn 2**

Yn Rheoliadau 2022, dileu'r ddarpariaeth anghymhwyso ar sail cysylltiad sy'n ymwneud ag unigolion cofrestredig sy'n gweithio ar safleoedd domestig ac annomestig.

Derbynnir yn gyffredinol bod caniatáu i unigolyn gofrestru i ddarparu gwasanaethau gwarchod plant os yw'n byw gyda rhywun sydd wedi'i anghymhwyso neu os yw person anghymwys yn gweithio yn ei gartref, lle darperir gofal plant, yn risg uchel.  Mewn amgylchedd cartref, mae cryn botensial a chyfle i bobl eraill sy'n byw neu'n gweithio yn y cartref ddod i gysylltiad â'r plant sy'n derbyn gofal a dylanwadu ar weithredoedd y person cofrestredig. Fel rheol gyffredinol, mae gwarchodwyr plant yn gweithio'n annibynnol o'u cartref eu hunain, er y gall rhai weithio gyda gwarchodwyr plant eraill neu gynorthwywyr gwarchod plant. Byddai dileu'r ddarpariaeth mewn perthynas ag unigolion cofrestredig sy'n gweithio ar safleoedd domestig yn dileu mesur allweddol o ran diogelu plant.

**Opsiwn 3**

Yn Rheoliadau 2022, dileu'r ddarpariaeth anghymhwyso ar sail cysylltiad sy'n ymwneud ag unigolion cofrestredig sy'n gweithio ar safleoedd annomestig yn unig.

Mae lefel gyffredinol y risg i ddiogelwch plant sy'n deillio o gysylltiad person cofrestredig ar safleoedd annomestig yn sylweddol is na'r risg mewn lleoliadau

domestig, ac mae angen i'r polisi fod yn gymesur â'r lefel wahanol o risg. O ran polisi a thystiolaeth, mae sail gryfach dros ddileu'r ddarpariaeth yn y cyd-destun hwn, gan gynnwys:

- Nid yw'r darpariaethau presennol yn ystyried y ffaith y bydd unigolion sy'n darparu gofal ar safle annomestig, yn gyffredinol, yn gweithio ochr yn ochr â nifer o bobl eraill ac y bydd eraill yn y gweithle yn arsylwi ar eu hymddygiad;

- Gellid ystyried bod anghymhwyso ar sail cysylltiad yn annheg/ anghyfiawn/ diangen – nid yw trosedd a gyflawnwyd gan rywun arall sydd yn y cartref neu'r ffaith ei fod wedi'i wneud yn destun gorchmynion/penderfyniadau o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth yn effeithio ar rôl a phroffesiwn y person cofrestredig, yn enwedig os yw'r person cofrestredig hwnnw'n gweithio i ffwrdd o'r cartref ac i ffwrdd oddi wrth unrhyw berson sydd wedi'i anghymhwyso. Yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn Lloegr ar y mater hwn, canfuwyd y gall y ddeddfwriaeth, mewn rhai sefyllfaoedd, orfodi unigolion i ddewis rhwng eu partneriaid neu eu teulu a'u gwaith, gan effeithio'n negyddol ar gysylltiadau teuluol;

- Bydd dileu'r ddarpariaeth mewn perthynas â lleoliadau annomestig yn dileu rhywfaint o gymhlethdod y Rheoliadau presennol ac yn alinio polisïau Cymru a Lloegr.

Cafodd rhai o'r rhesymau hyn eu hystyried fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth y DU ar gynigion i ddiwygio'r trefniadau yn Lloegr yn 2016. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw yn cefnogi dileu'r ddarpariaeth yn llwyr mewn perthynas ag unigolion cofrestredig sy'n gweithio ar safleoedd annomestig. Gallai alinio â'r polisi yn Lloegr hefyd hwyluso gweithio trawsffiniol a symleiddio'r rheolau i bobl sy'n gweithio yn y sector gofal plant.

### Yr Opsiwn a Ffefrir

Drafftiwyd Rheoliadau 2022 i ddileu'r ddarpariaeth anghymhwyso ar sail cysylltiad mewn perthynas ag unigolion cofrestredig sy'n darparu gofal plant ar safleoedd annomestig. Mae'r ddarpariaeth anghymhwyso ar sail cysylltiad hefyd wedi'i dileu ar gyfer gwarchodwyr plant / cynorthwywyr gwarchodwyr plant sy'n gweithio ar safleoedd domestig nad yw'n gartref iddynt. Gwnaed y newidiadau hyn am y rhesymau a nodir o dan **Opsiwn 3** uchod.

Yn unol â hynny, mae Rheoliad 11 o Reoliadau 2022 yn darparu ei bod yn ddyletswydd ar berson sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 y Mesur i ddatgelu gwybodaeth i Weinidogion Cymru sy'n berthnasol i fanylion unrhyw orchymyn, penderfyniad, collfarn neu sail arall dros anghymhwyso rhag cofrestru o dan y Rheoliadau hyn. Mae'r rhwymedigaeth honno'n berthnasol i wybodaeth sy'n

ymwneud â'r person cofrestredig ac unrhyw berson sy'n byw yn y cartref neu a gyflogir yn y cartref lle mae’r person cofrestredig yn warchodwr plant neu'n bwriadu gweithredu fel gwarchodwr plant **ond nid yw'n berthnasol** i unrhyw unigolion sy'n byw yn yr un cartref neu a gyflogir yn yr un cartref â darparwr gofal dydd cofrestredig neu rywun sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gofal dydd neu warchodwr plant sy’n cofrestru i weithio ar safle domestig i ffwrdd o'i gartref.

Roedd yr ymarfer ymgynghori yn ffordd o brofi lefel y gefnogaeth i’r newid arfaethedig hwn (Opsiwn 3) ac o asesu’r awydd ymhlith rhanddeiliaid i gadw'r status quo (h.y. Opsiwn 1).

**Gorchmynion gofal a goruchwylio**

Rydym wedi ymgynghori ar yr opsiynau canlynol i ymdrin â’r elfennau anghyson yn Rheoliadau 2010 sy'n ymwneud ag anghymhwyso unigolion yn awtomatig a oedd eu hunain unwaith yn destun gorchymyn gofal neu oruchwylio, a gofalwyr maeth (gan gynnwys gofalwyr maeth sy’n berthnasau) neu rieni sydd wedi mabwysiadu plentyn a wnaed yn destun y gorchmynion hyn.

**Opsiwn 1**

Atal yr arfer o anghymhwyso unigolion yn awtomatig a oedd eu hunain unwaith yn destun **gorchymyn gofal yn unig** a gofalwyr maeth (gan gynnwys gofalwyr maeth sy’n berthnasau) neu rieni sydd wedi mabwysiadu plentyn a oedd neu sy'n destun **gorchymyn gofal yn unig**. Ni fyddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud mewn perthynas â gorchmynion goruchwylio.

Er y byddai hyn yn alinio'r polisi yng Nghymru â'r hyn sydd ar waith yn Lloegr ar hyn o bryd, deallwn fod gorchmynion gofal a goruchwylio yn cael eu gwneud ar y sail bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, ac rydym yn ystyried ei bod yn afresymol ac yn annheg gwneud y newid polisi hwn mewn perthynas â gorchmynion gofal yn unig gan fod y ddau fath o orchymyn yn cael eu gwneud ar yr un sail.

**Opsiwn 2**

Atal yr arfer o anghymhwyso unigolion yn awtomatig a oedd eu hunain unwaith yn destun **gorchymyn gofal neu oruchwylio** a gofalwyr maeth (gan gynnwys gofalwyr maeth sy’n berthnasau) neu rieni sydd wedi mabwysiadu plentyn a oedd neu sy'n destun **gorchymyn gofal neu oruchwylio.**

Gan fod gorchmynion gofal a goruchwylio yn cael eu gwneud ar y sail bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, rydym o'r farn ei bod yn annheg anghymhwyso'r canlynol:

- unigolion y gwnaed gorchymyn gofal neu oruchwylio mewn perthynas â nhw yn y gorffennol lle mai nhw eu hunain oedd yr unigolyn mewn perygl/yn debygol o ddioddef niwed;

- gofalwyr maeth (gan gynnwys gofalwyr maeth sy’n berthnasau) a mabwysiadwyr sy'n gwneud cais i fod yn warchodwr plant neu'n ddarparwr gofal dydd cofrestredig ond sy'n gyfrifol am blentyn/plant a oedd neu sy'n destun gorchymyn gofal neu oruchwylio a wnaed o ganlyniad i weithredoedd pobl eraill.

Nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai'r unigolion hyn yn risg i ddiogelwch plant yn eu gofal (yn wahanol i unigolion y mae eu gweithredoedd nhw wedi arwain at wneud gorchymyn gofal neu oruchwylio), ac mae'n debygol nad oedd erioed yn fwriad anghymhwyso'r unigolion hyn pan wnaed Rheoliadau 2010. Mae cyfiawnhad dros ddadlau bod y darpariaethau hyn yn annheg.

O dan yr opsiwn hwn, ein bwriad fyddai cadw'r darpariaethau yn Rheoliadau 2010 mewn perthynas ag unigolion sy'n gwneud cais i weithredu fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd pan fo gorchmynion o'r fath wedi'u gwneud ar sail y ffordd y maen nhw wedi trin plentyn.

### Yr Opsiwn a Ffefrir

Ein dewis opsiwn yw **Opsiwn 2** am y rhesymau a nodir uchod. Penderfynwyd peidio â dewis yr opsiwn o gadw'r status quo ar y sail bod angen datrys yr elfennau anghyson yn Rheoliadau 2010 am resymau cydraddoldeb.

## 6. Canllawiau ar gyfer gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd cofrestredig

Er mai dim ond mewn perthynas ag unigolion sydd wedi'u cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd y mae'r rheoliadau hyn yn gymwys, mae adran 39(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ymestyn ymhellach yr effaith i'r rhai y caniateir eu cyflogi ar safleoedd o'r fath gan nodi "*Rhaid i berson beidio â chyflogi, mewn cysylltiad â darparu gofal dydd neu wasanaeth gwarchod plant yng Nghymru, berson sydd wedi’i anghymhwyso rhag cofrestru o dan y Rhan hon gan reoliadau o dan adran 38.”*

Caiff canllawiau cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru eu diweddaru i adlewyrchu hyd a lled Rheoliadau 2022, a'r ffaith bod y gofynion ar gyflogwyr i beidio â chyflogi unrhyw berson sydd wedi'i anghymhwyso yn parhau.

## 7. Costau a manteision

### Costau

Yn achos llawer o'r tybiaethau, dylid nodi nad ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth. Amcangyfrifon strwythuredig ydynt. Oherwydd hyn, ynghyd â'r effaith fach sy'n gysylltiedig â'r polisi, rydym wedi mynd ati i lunio'r dadansoddiad hwn ar sail cyfrannedd.

| | |
|---|---|
| **1** | **£28,400 ar gyfer costau ymgyfarwyddo trosiannol i reolwyr gofal plant a safleoedd chwarae cofrestredig ddod yn gyfarwydd â'r newidiadau yn y Rheoliadau a'r canllawiau cysylltiedig;**<br><br>Nifer y safleoedd gofal dydd cofrestredig x amcangyfrif o'r gyfradd fesul awr i reolwr x 0.5 awr<br><br>1,800[4] x £20.60[5] x 0.5[6] = £18,538.65<br><br>Nifer y gwarchodwyr plant x amcangyfrif o'r gyfradd fesul awr x 0.5 awr<br><br>1,500 x £13.09[7] x 0.5 = £9,818.25 |

[4] Cofrestr Arolygiaeth Gofal Cymru Rhagfyr 2021. Wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf.

[5] Amcangyfrif yn seiliedig ar ddata ASHE. Dau 'broffesiwn', er nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig, sydd fwyaf perthnasol: Rheolwyr a pherchnogion gwasanaethau iechyd a gofal (£16.44); Rheolwyr a pherchnogion gofal preswyl, gofal dydd a gofal cartref (£15.25). Mae cyfartaledd enillion gros canolrifol y ddau broffesiwn fesul awr wedi'i nodi ar sail arolwg 2021. Mae'r ffigurau wedi'u codi 30% i adlewyrchu argostau.

[6] Rhagdybiaeth oherwydd diffyg tystiolaeth. Yn seiliedig ar Reoliadau Gofal Plant (Anghymhwyso) a Gofal Plant (Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn Rhad ac am Ddim) (Ymestyn Hawliau) (Diwygio) 2018 (legislation.gov.uk)

[7] Amcangyfrif yn seiliedig ar ddata ASHE. Enillion gros canolrifol fesul awr y proffesiwn Gwarchodwyr Plant (£10.07). Ar sail arolwg 2021. Mae'r ffigurau wedi'u codi 30% i adlewyrchu argostau.

| | |
|---|---|
| | Cyfanswm = £28,356.90 |
| **2** | **£700 ar gyfer amser staff Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chyfathrebu ynghylch y canllawiau newydd**<br><br>Amcangyfrif o 20 awr o amser swyddog HEO, 4 awr o amser swyddog Gradd 7, ac 1 awr o amser Dirprwy Gyfarwyddwr<br><br>(15 x 30.65)[8] + (4 x 50.94)[9] + (1 x 71.88)[10] = £735.33 |

**Manteision**

| | |
|---|---|
| **1** | **£3,300 y flwyddyn yn uniongyrchol am fod gweithwyr a fyddai fel arall wedi cael eu hatal tra'n aros am ganlyniad cais i wrthdroi anghymhwysiad bellach yn gallu gweithio;**<br><br>Amcangyfrif o nifer yr achosion x oriau a gollir fesul achos x amcangyfrif o gyflog yr awr (gan gynnwys argostau) ar safleoedd gofal plant a chwarae cofrestredig |

[8] Cost gros gyfartalog flynyddol swyddog HEO yn 2020-21 yw £49,893

[9] Cost gros gyfartalog flynyddol swyddog Gradd 7 yn 2020-21 yw £82,928

[10] Cost gros gyfartalog flynyddol Dirprwy Gyfarwyddwr yn 2020-21 yw £117,016

| | |
|---|---|
| | 3[11] x 84 awr[12] x £13.09[13] = £3,298.93 |
| **2** | **£100 y flwyddyn yn deillio o'r ffaith nad yw staff gweinyddol darparwyr yn gorfod cefnogi staff sy'n gwneud cais i wrthdroi anghymhwysiad, ystyried asesiadau anghymhwyso, neu hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru;**<br><br>Amcangyfrif o nifer yr achosion x amser a dreulir fesul achos x cyflog yr awr i staff cymorth<br><br>3[14] X 2.175 awr[15] x £13.09[16] = £85.42 |

## 8. Effeithiau Eraill (heb werth ariannol)

Nid oes data ar gael ar nifer yr oedolion yng Nghymru sydd wedi bod yn destun gorchymyn gofal neu oruchwylio yng Nghymru yn y gorffennol, neu sydd wedi mabwysiadu neu'n maethu plant sy'n destun gorchmynion gofal. Nid yw'n bosibl

[11] Yn absenoldeb data ar nifer yr achosion gan Arolygiaeth Gofal Cymru, rydym wedi cyfrifo nifer yr achosion yn Lloegr ar sail data Ofsted, ac yna ar sail cyfrannedd rydym wedi rhagdybio y byddai'r ffigur hwn yn amcan bras ar gyfer y safleoedd yng Nghymru

[12] Yn seiliedig ar wybodaeth reoli ac adborth a ddarparwyd gan Ofsted ar gyfer Rheoliadau Gofal Plant (Anghymhwyso) a Gofal Plant (Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn Rhad ac am Ddim) (Ymestyn Hawliau) (Diwygio) 2018 (legislation.gov.uk) Cymryd yn ganiataol ei fod yn debygol o fod yn debyg yng Nghymru

[13] Amcangyfrif yn seiliedig ar ddata ASHE. Enillion gros canolrifol fesul awr y proffesiwn Gwarchodwyr Plant (£10.07). Ar sail arolwg 2021. Tybir bod hyn yn gymharol berthnasol i staff eraill sy'n gweithio yn y sector gofal plant a chwarae cofrestredig yn ehangach. Mae'r ffigurau wedi'u codi 30% i adlewyrchu argostau.

[14] Fel uchod – amcangyfrif yn seiliedig ar ddata Ofsted. Mae AGC wedi cadarnhau mai ychydig iawn o anghymhwysiadau a gafodd eu gwrthdroi yn ystod y 10 mlynedd diwethaf

[15] Fel uchod – amcangyfrif yn seiliedig ar ddata Ofsted

[16] Amcangyfrif yn seiliedig ar ddata ASHE. Enillion gros canolrifol fesul awr y proffesiwn Gwarchodwyr Plant (£10.07). Ar sail arolwg 2021. Tybir bod hyn yn gymharol berthnasol i staff eraill sy'n gweithio yn y sector gofal plant a chwarae cofrestredig yn ehangach. Mae'r ffigurau wedi'u codi 30% i adlewyrchu argostau.

nodi, felly, faint o'r bobl hynny a allai geisio cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd yng Nghymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, disgwyliwn i'r nifer fod yn fach.

Yn ogystal â'r costau a'r manteision a restrir uchod, mae'n debygol y bydd yna effeithiau pellach na chânt eu hystyried yma sy'n ymwneud â gwell perthynas rhwng cyflogwyr a chyflogeion. Mae'r rhain yn cynnwys ymdeimlad mwy o les ac o degwch sy'n arwain at well cynhyrchiant, llai o straen ar ddarparwyr wrth orfod adleoli neu atal staff, a gorfod dod o hyd i staff yn eu lle, ac o bosibl ystod ehangach o ymgeiswyr. Fodd bynnag, nid ydym wedi mynd ati i gynnwys y rhain, oherwydd nad oes tystiolaeth ar gael yn rhwydd ac oherwydd ein bod am fod yn gymesur o ystyried graddfa'r polisi.

Yn ogystal, mae yna fanteision eraill na chânt eu cynnwys yma, megis yr amser a arbedir i weithwyr na fyddent bellach yn gorfod gwneud cais i wrthdroi anghymhwysiad, ac i AGC na fyddent bellach yn gorfod treulio amser yn prosesu achosion gwrthdroi anghymhwysiad (er mai ychydig iawn a fu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf).

O'r herwydd, credwn y gallai gwir werth y manteision sy'n deillio o'r polisi fod yn fwy na'r hyn a nodir yma.

## 9. Ymgynghori

**Cyhoeddwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn ochr yn ochr â Dogfen Ymgynghori a fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori rhwng 31 Mawrth 2022 a 23 Mehefin 2022**.

Cafodd yr ymgynghoriad ei ddwyn i sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys yr holl ddarparwyr gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig, awdurdodau lleol, Comisiynydd Plant Cymru, a sefydliadau'r trydydd sector sy'n cynrychioli'r sefydliadau gofal plant a gwaith chwarae.

Cafwyd 8 ymateb, gan gynnwys ymateb cyfun gan gonsortiwm gofal plant Cwlwm yn seiliedig ar adborth gan weithdai a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd. At ei gilydd, cafwyd cytundeb cyffredinol ynghylch yr holl gynigion yn yr ymgynghoriad. O ystyried yr ymatebion, penderfynwyd nad oedd angen gwneud unrhyw welliannau i'r Rheoliadau.

Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymghynghoriad ar gael yma: Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) Drafft 2022 | LLYW.CYMRU

## 10. Asesiad Effaith Integredig

Cyhoeddwyd y rhannau perthnasol o Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â’r ymarfer ymgynghori.

## 11. Asesiad o'r Gystadleuaeth

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1:** Yn y farchnad/marchnadoedd y mae’r Rheoliadau newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o’r farchnad sy’n fwy na 10%? | Nac oes |
| **C2:** Yn y farchnad/marchnadoedd y mae’r Rheoliadau newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o’r farchnad sy’n fwy nag 20%? | Nac oes |
| **C3:** Yn y farchnad/marchnadoedd y mae’r Rheoliadau newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw cyfran y tri chwmni mwyaf gyda’i gilydd yn 50% o leiaf o’r farchnad? | Nac ydy |
| **C4:** A fyddai costau’r Rheoliadau yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau o gymharu nag eraill? | Na fyddent |
| **C5:** A yw’r Rheoliadau yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Nac ydynt |
| **C6:** A fyddai’r Rheoliadau yn arwain at gostau sefydlu uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddent |
| **C7:** A fyddai’r Rheoliadau yn arwain at gostau rheolaidd uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddent |
| **C8:** A yw'r sector yn gweld newidiadau technolegol cyflym? | Nac ydy |
| **C9:** A fyddai’r Rheoliadau yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddent |

Ni fydd y Rheoliadau hyn yn effeithio ar fusnes, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sydd â goblygiadau o ran cystadleuaeth. Ni ddefnyddiwyd prawf hidlo'r gystadleuaeth.

Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau hyn gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd na chyflenwyr presennol.

Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau hyn gael unrhyw effaith negyddol ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

**12. Adolygiad ar ôl gweithredu**

Byddwn yn gofyn yn barhaus am adborth ar effeithiolrwydd y Rheoliadau hyn ac effaith y newidiadau, gan ystyried unrhyw welliannau y gallai fod eu hangen yn y dyfodol. Gofynnir am adborth gan Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n ymgymryd â swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chofrestru gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd ac ymdrin â cheisiadau i wrthdroi anghymhwysiadau yn rheolaidd, yn ogystal ag adborth gan gynrychiolwyr y sector.